OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3342 (Cy.293)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*16 Rhagfyr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Rhagfyr 2009*
Yn dod i rym - -	*8 Ionawr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â'r gofyniad i asesu effaith amgylcheddol prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd i'r graddau y mae a wnelo hynny â chynllunio gwlad a thref, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ionawr 2010.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ardal sensitif" ("*sensitive area*") yw unrhyw un o'r canlynol—

(**1**) Dynodir Gweinidogion Cymru felly gan O.S. 2007/1679.
(**2**) 1972 p.68. Mae adran 2(2) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth benodol mewn perthynas â'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn rhinwedd adran 2(5) o Ddeddf yr Ardal Economaidd Ewropeaidd 1993 (1993 p.51).

(a) tir a hysbyswyd o dan is-adran (1) o adran 28 (ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**3**);

(b) tir y mae is-adran (3) o adran 29 (gorchmynion cadwraeth natur) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn gymwys iddo;

(c) ardal y mae paragraff (u)(ii) yn y tabl yn erthygl 10 o'r Gorchymyn yn gymwys iddi;

(ch) Parc Cenedlaethol o fewn ystyr Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**4**);

(d) eiddo sy'n ymddangos ar Restr Treftadaeth y Byd a gedwir o dan Erthygl 11(2) o Gonfensiwn UNESCO er Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd 1972;

(dd) heneb gofrestredig yn yr ystyr a roddir i "scheduled monument" yn Neddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979(**5**);

(e) ardal o harddwch naturiol eithriadol, a ddynodwyd fel y cyfryw drwy orchymyn a wnaed gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru o dan adran 82 (dynodi ardaloedd) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**6**) fel y'i cadarnhawyd gan Weinidogion Cymru(**7**);

(h) safle Ewropeaidd o fewn ystyr "European site" yn rheoliad 10 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc.) 1994(**8**);

ystyr "awdurdod cynllunio mwynau perthnasol" ("*relevant mineral planning authority*") yw'r corff y mae'n dod i'w ran, neu y byddai'n dod i'w ran oni bai am gyfarwyddyd o dan baragraff—

(a) 7 o Atodlen 2 i Ddeddf 1991;

(b) 13 o Atodlen 13 i Ddeddf 1995; neu

(c) 8 o Atodlen 14 i Ddeddf 1995,

i benderfynu'r cais AHGM amhenderfynedig dan sylw;

ystyr "barn gwmpasu" ("*scoping opinion*") yw datganiad ysgrifenedig o farn yr awdurdod cynllunio mwynau perthnasol, a fabwysiadwyd yn unol â rheoliad 12 ynglŷn â chwmpas yr wybodaeth y cyfeirir ati yn Rhan I o Atodlen 2 ac y mae'r awdurdod yn credu ei bod yn berthnasol i'r canlynol—

(a) priodweddau neilltuol y datblygiad AEA penodol y mae'r farn yn ymwneud ag ef;

(b) priodweddau neilltuol datblygiad o'r math sydd o dan sylw;

(c) y nodweddion amgylcheddol y mae'n debyg y byddai'r datblygiad AEA yn effeithio arnynt,

ac y mae'r awdurdod, o ystyried yn benodol yr wybodaeth a'r dulliau asesu cyfredol, yn credu y gellir yn rhesymol, ei gwneud yn ofynnol ei chrynhoi;

ystyr "cais AEA" ("*EIA application*") yw cais AHGM amhenderfynedig am ddatblygiad AEA;

ystyr "cais AHGM" ("*ROMP application*") yw cais a wneir i awdurdod cynllunio mwynau perthnasol am benderfynu ar yr amodau y bydd cais cynllunio'n ddarostyngedig iddynt o dan baragraff—

(a) 2(2) o Atodlen 2 i Ddeddf 1991 (cofrestru hen ganiatadau mwyngloddio);

(b) 9(1) o Atodlen 13 i Ddeddf 1995 (adolygu hen ganiatadau cynllunio mwynau); neu

(**3**) 1981 p.69.
(**4**) 1949 p.97.
(**5**) 1979 p.46.
(**6**) 2000 p.37.
(**7**) Rhoddodd Deddf 2000 y swyddogaethau perthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**8**) O.S. 1994 Rhif 2716. Gwnaed diwygiad perthnasol i reoliad 10 gan O.S. 2007/1843.

(c) 6(1) o Atodlen 14 i Ddeddf 1995 (adolygiadau cyfnodol o ganiatadau cynllunio mwynau);

ystyr "cais AHGM amhenderfynedig" ("*undetermined ROMP application*") yw cais AHGM a wnaed cyn 15 Tachwedd 2000 ac y mae, ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, i'w benderfynu gan awdurdod cynllunio mwynau perthnasol neu Weinidogion Cymru;

ystyr "cofrestr" ("*register*") yw cofrestr a gedwir yn unol ag adran 69 (cofrestrau o geisiadau etc.) ac ystyr "cofrestr briodol" ("*appropriate register*") yw'r gofrestr y mae manylion cais AHGM amhenderfynedig yn dod i'w cofnodi ynddi yn rhinwedd adran 69, fel y'i cymhwysir gan reoliad 47(1), a rheoliad 48(1);

ystyr "cyfarwyddyd cwmpasu" ("*scoping direction*") yw datganiad ysgrifenedig o farn Gweinidogion Cymru a wnaed yn unol â rheoliad 13, 14 neu 15, ynglŷn â chwmpas yr wybodaeth y cyfeirir ati yn Rhan I o Atodlen 2 y maent yn credu ei bod yn berthnasol i'r canlynol—

(a) priodweddau neilltuol y datblygiad AEA penodol y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef;

(b) priodweddau neilltuol datblygiad o'r math sydd o dan sylw;

(c) y nodweddion amgylcheddol y mae'n debyg y byddai'r datblygiad AEA yn effeithio arnynt,

ac y mae Gweinidogion Cymru, o ystyried yn benodol yr wybodaeth a'r dulliau asesu cyfredol, yn credu y gellir yn rhesymol, ei gwneud yn ofynnol ei chrynhoi;

ystyr "cyfarwyddyd sgrinio" ("*screening direction*") yw cyfarwyddyd a roddir yn unol â rheoliad 9 i'r perwyl bod datblygiad AHGM yn ddatblygiad esempt, neu'n unol â rheoliad 11, ynghylch p'un a yw datblygiad AHGM yn ddatblygiad AEA ai peidio;

ystyr "cyfarwyddyd sgrinio cadarnhaol" ("*positive screening direction*") yw cyfarwyddyd a roddir yn unol â rheoliad 11, i'r perwyl bod datblygiad AHGM yn ddatblygiad AEA;

ystyr "cyfarwyddyd sgrinio negyddol" ("*negative screening direction*") yw cyfarwyddyd a roddir yn unol â rheoliad 9 i'r perwyl bod datblygiad AHGM yn ddatblygiad esempt, neu'n unol â rheoliad 11, i'r perwyl nad yw datblygiad AHGM yn ddatblygiad AEA;

ystyr "y cyrff ymgynghori" ("*the consultation bodies*") yw—

(a) unrhyw gorff y mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio mwynau perthnasol ymgynghori ag ef, neu y byddai'n ofynnol iddo ymgynghori ag ef yn rhinwedd erthygl 10 (ymgyngoriadau cyn rhoi caniatâd) o'r Gorchymyn neu unrhyw gyfarwyddyd o dan yr erthygl honno, pe bai cais am ganiatâd cynllunio am y datblygiad dan sylw ger ei fron; a

(b) y cyrff canlynol os nad ydynt yn gynwysedig yn rhinwedd is-baragraff (a)—

(i) unrhyw brif gyngor ar gyfer yr ardal y lleolir y tir ynddi, os nad hwnnw yw'r awdurdod cynllunio mwynau perthnasol;

(ii) Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

(iii) Asiantaeth yr Amgylchedd; a

(iv) cyrff eraill a ddynodir drwy ddarpariaeth statudol fel rhai sydd â chyfrifoldebau amgylcheddol penodol, ac a ystyrir gan yr awdurdod cynllunio mwynau perthnasol neu gan Weinidogion Cymru, yn ôl y digwydd, yn debygol o fod â diddordeb yn y cais;

ystyr "datblygiad AEA" ("*EIA development*") yw datblygiad AHGM nad oes cyfarwyddyd sgrinio negyddol wedi ei roi ynglŷn ag ef;

ystyr "datblygiad AHGM" ("*ROMP development*") yw datblygiad sydd eto heb ei gyflawni ac a awdurdodir gan ganiatâd cynllunio sy'n destun cais AHGM amhenderfynedig;

ystyr "datblygiad Atodlen 2" ("*Schedule 2 development*") yw datblygiad, ac eithrio datblygiad esempt, o ddisgrifiad a grybwyllir yng Ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 i Reoliadau 1999—

(a) pan fo unrhyw ran o'r datblygiad hwnnw i'w gyflawni mewn ardal sensitif; neu

(b) pan eir dros ben unrhyw drothwy cymwys neu pan fodlonir criterion cymwys yn y rhan gyfatebol o Golofn 2 yn y tabl hwnnw mewn perthynas â'r datblygiad hwnnw;

ystyr "datblygiad esempt" ("*exempt development*") yw datblygiad AHGM y rhoddwyd cyfarwyddyd ynglŷn ag ef gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 9(1);

ystyr "datblygiad mwynau" ("*minerals development*") yw datblygiad sy'n cynnwys ennill a gweithio mwynau, neu ollwng gwastraff mwynau;

ystyr "datblygiad mwynau diawdurdod" ("*unauthorised minerals development*") yw datblygiad mwynau a beidiodd â chael ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio, yn unol ag—

(a) rheoliad 11(9);

(b) rheoliad 12(5);

(c) rheoliad 13(10);

(ch) rheoliad 14(11);

(d) rheoliad 15(11);

(dd) rheoliad 17(8);

(e) rheoliad 18(10);

(h) rheoliad 18(17);

(ff) rheoliad 19(2);

(g) rheoliad 26(5);

(ng) rheoliad 27(5);

(h) rheoliad 28(7);

(m) rheoliad 29(2);

ystyr "datganiad amgylcheddol" ("*environmental statement*") yw datganiad—

(a) a gyflwynir mewn ffurf briodol;

(b) sy'n cynnwys o leiaf yr wybodaeth y cyfeirir ati yn Rhan 2 o Atodlen 2;

(c) sy'n cynnwys cymaint o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn Rhan 1 o Atodlen 2 ag a bennir yn y penderfyniad cwmpasu perthnasol;

mae i'r ymadrodd "datganiad amgylcheddol drafft" ("*draft environmental statement*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 17(2), 17(3) ac 17(4);

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991 (p.34);

ystyr "Deddf 1995" ("*the 1995 Act*") yw Deddf yr Amgylchedd 1995 (p.25);

ystyr "drwy hysbysebu yn lleol" ("*by local advertisement*"), mewn perthynas â hysbysiad yw—

(a) drwy gyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth y lleolir ynddi y tir y mae'r cais neu'r apêl yn ymwneud ag ef; a

(b) os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan at y diben o hysbysebu ceisiadau, drwy gyhoeddi'r hysbysiad ar y wefan honno;

ystyr "dyddiad atal" ("*suspension date*") yw'r dyddiad pan fo caniatâd cynllunio, yn unol ag unrhyw un o'r darpariaethau canlynol, yn peidio ag awdurdodi unrhyw ddatblygiad mwynau—

(a) rheoliad 11(9);

(b) rheoliad 12(5);

(c) rheoliad 13(10);

(ch) rheoliad 14(11);

(d) rheoliad 15(11);

(dd) rheoliad 17(8);

(e) rheoliad 18(10);

(h) rheoliad 18(17);

(ff) rheoliad 19(2);

(g) rheoliad 26(5);

(ng) rheoliad 27(5);

(h) rheoliad 28(7);

(m) rheoliad 29(2);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) ac y mae cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf honno;

ystyr "y Gorchymyn" ("*the Order*") yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995(**9**);

ystyr "gweithredwr" ("*operator*"), mewn perthynas ag unrhyw gais AHGM amhenderfynedig penodol yw unrhyw berson ac eithrio'r ceisydd neu'r apelydd sydd â hawl i gyflawni unrhyw ran o'r datblygiad AHGM sydd wedi ei awdurdodi drwy'r caniatâd cynllunio y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Gwladwriaeth sy'n barti yng Nghytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr "gwybodaeth amgylcheddol" ("*environmental information*") yw'r datganiad amgylcheddol ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach, tystiolaeth, unrhyw wybodaeth arall, unrhyw sylwadau a wneir gan unrhyw gorff y mae'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn ei wahodd i wneud sylwadau, ac unrhyw sylwadau a wneir yn briodol gan unrhyw berson arall am effeithiau amgylcheddol y datblygiad AEA;

ystyr "gwybodaeth bellach" ("*further information*") mewn perthynas ag unrhyw gais AEA penodol, yw gwybodaeth a ystyrir, yn rhesymol, gan yr awdurdod cynllunio mwynau perthnasol neu gan Weinidogion Cymru, sydd—

(a) yn ymwneud â phrif effeithiau'r datblygiad AEA; neu

(b) yn sylweddol berthnasol ar gyfer penderfynu ar yr amodau y bydd y caniatâd cynllunio'n ddarostyngedig iddynt,

ac, o ystyried yn benodol yr wybodaeth a'r dulliau asesu cyfredol, y gellir yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol ei chrynhoi;

mae i'r ymadrodd "gwybodaeth benodedig" ("*specified information*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 18(6)(a);

mae i'r ymadrodd "gwybodaeth berthnasol arall" ("*other relevant information*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 36(5);

mae i'r ymadrodd "gwybodaeth gwmpasu" ("*scoping information*") yr ystyr a briodolir iddo yn rheoliadau 12(2), 13(4), 14(5) ac 15(5);

(**9**) O.S, 1995 Rhif 419; gwnaed diwygiadau perthnasol gan O.S. 1996/525; O.S. 1996/1817; O.S. 1997/858; O.S. 1999/981; Deddf yr Amgylchedd 1995 (p.25); a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37).